

Eitem:

Teitl: Canolbwyntio ar bobl f/Fyddar a Defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Gweithredu / Action required	Er gwybodaeth
Amseru / Timing	Rheolaidd
Argymhelliad / Recommendation	Y dylai'r Bwrdd dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
Risg / Risk	Risg i enw da Llais pe na bai'n clywed yn effeithiol gan bobl f/Fyddar neu pe na bai'n cynrychioli pobl f/Fyddar yn effeithiol. Risg i gyflawni strategol os ymgysylltir â phobl f/Fyddar mewn modd anghyson neu os nad ymwreiddir yr arfer ar draws swyddogaethau craidd Llais, gan leihau gallu'r sefydliad i gyflawni ei ddiben statudol a'i ymrwymadau strategol. Risg i allu a chapasiti yn deillio o'r sgiliau arbenigol, y mesurau diogelu a'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer ymgysylltu'n ddiogel, yn foesegol ac yn ystyrlon â phobl f/Fyddar, yn enwedig pan fo cynnydd yn y galw.
Cyllid / Finance	Amherthnasol
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective/Amcan Rhaglen/ Programme objective	Mae'r gwaith hwn yn ategu Cynllun Strategol Llais (2024-27) yn uniongyrchol: AS 01 Ysgogi sgwrs genedlaethol – Cryfhau lleisiau pobl f/Fyddar, yn enwedig rhai sy'n dioddef anghydraddoldebau neu ganlyniadau gwaeth AS 02 Mynnu cael gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl – Defnyddio profiad bywyd pobl f/Fyddar i ddylanwadu ar atebolrwydd a gwelliannau mewn gwasanaethau AS 05. Datblygu a gwella fel sefydliad – Cryfhau swyddogaethau ymgysylltu ac eirioli Mae'n ategu'r Egwyddorion Pobl, yn cynnwys gwrando, urddas, cyfathrebu clir a gofal cydgysylltiedig.

Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Mae'r gwaith hwn yn hynod berthnasol i degwch ac amrywiaeth. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig, a daw pobl f/Fyddar ar draws rhwystrau neilltuol mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae unigolion ag anableddau yn arbennig o debygol o ddioddef mynediad gwael a chanlyniadau gwael. Mae gwaith ymgysylltu ac eirioli penodol gyda phobl f/Fyddar yn ategu ymrwymiad Llais i leihau anghydraddoldeb a sicrhau bod lleisiau na chânt eu clywed mor aml yn gallu llywio gwelliannau mewn gwasanaethau.
Cyfathrebu / Communications	Rhowch dic yn un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgarwch hwn yn effeithio ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Ben Eaton, Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltu
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Amherthnasol
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Roxanne Treacy, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Mewnwelediad a Rebecca Lythgoe, Pennaeth Mewnwelediadau ac Ymgysylltu
Dyddiad / Date	21 Hydref 2026

Cefndir / Background

Mae'r papur hwn yn cynnig trosolwg o waith cynyddol Llais gyda phobl f/Fyddar.

Negeseuon allweddol

- Mae cyfathrebu hygyrch yn parhau i fod yn un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol a ddaw i ran pobl f/Fyddar wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae tystiolaeth sy'n deillio o waith ymgysylltu, eirioli, ymchwil a chynrychioli yn dangos pryderon cyson ynglŷn â darpariaeth dehonglwyr, systemau apwyntiadau anhygyrch, addasiadau rhesymol a mynediad at wasanaethau awdioleg.
- Mae Llais wedi llwyddo i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a gwelliannau mewn gwasanaethau trwy gyflwyno sylwadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru, trwy ymateb i ymgynghoriadau a thrwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.
- Trwy hyfforddi ei staff, datblygu ei wefan a gweithio mewn partneriaeth, mae Llais yn cryfhau ei hygyrchedd ei hun tra'n dylanwadu ar newid ehangach yn y system.
- Mae'r Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), sydd ar fin cael ei chyflwyno, yn cynnig cyfle i wella gwasanaethau a chryfhau llais pobl f/Fyddar ledled Cymru.

Mae ein gwaith achos mewn perthynas ag ymgysylltu, polisi, eirioli a chwynion yn dangos yn gyson mai cyfathrebu yw un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar brofiad pobl f/Fyddar yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ar draws amryfal ffynonellau, dywed pobl wrthym y gall anawsterau o ran cael gafael ar wybodaeth, dehonglwyr, apwyntiadau a gwasanaethau clyw arbenigol effeithio ar eu profiad, yn ogystal ag effeithio ar eu gallu i gymryd rhan yn llawn mewn penderfyniadau'n ymwneud â'u hiechyd a'u llesiant.

Mae cysondeb y profiadau hyn yn awgrymu nad materion unigryw mohonynt ond eu bod, yn hytrach, yn adlewyrchu heriau ehangach yn y system ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Awgryma hyn nad yw

cyfathrebu hygyrch wedi'i ymwreiddio'n gyson eto fel un o elfennau craidd gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yr hyn a ddywed y gymuned f/Fyddar wrthym

Gofal argyfwng

Llwyddodd ein prosiect Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, a gynhaliwyd ledled Cymru, i bennu heriau a ddaw i ran pobl fyddar o safbwynt cael gafael ar wasanaethau. Yn achos un mynychwr a oedd yn gallu cyfathrebu trwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, bu'n rhaid iddo gynorthwyo claf byddar mewn adran argyfwng gan nad oedd cymorth cyfathrebu priodol ar gael, gan gyfyngu ar allu'r staff i gyfathrebu'n effeithiol â'r unigolyn.

Yn fwy cyffredinol, dangosodd y prosiect pa mor bwysig yw cyfathrebu hygyrch, gwybodaeth amserol a gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion unigol pobl, gan gadarnhau themâu y mae cymunedau b/Byddar ledled Cymru yn dal i sôn amdanynt.

Mynediad at wasanaethau meddygon teulu

Yn ein hymchwil ehangach i wasanaethau meddygon teulu ledled Cymru, tynnwyd sylw at nifer o faterion sy'n arbennig o berthnasol i bobl f/Fyddar a defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain. Darganfu'r ymchwil fod anawsterau clywed ymhlith yr anghenion cyfathrebu a oedd yn effeithio ar fynediad at wasanaethau meddygon teulu, a nodwyd bod dibyniaeth ar systemau archebu dros y ffôn, prinder gwybodaeth mewn fformatau hygyrch a diffyg dealltwriaeth o anghenion cyfathrebu ychwanegol yn esgor ar rwystrau mawr. Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu pryderon a grybwyllwyd yn y gwaith

ymgysylltu a wnaethom gyda chymunedau b/Byddar, gan ddangos bod angen i wasanaethau iechyd roi dulliau cyfathrebu mwy hygyrch a chynhwysol ar waith.

Eiriolaeth cwynion: Yr hyn y mae pobl yn ei brofi

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwasanaeth ymholiadau ac eiriolaeth cwynion wedi dod ar draws nifer o faterion yn ymwneud â byddardod, colli clyw, gwasanaethau awdioleg a mynediad at laith Arwyddion Prydain. Mae'r achosion hyn yn creu darlun trawiadol o gyson ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sef bod rhwystrau cyfathrebu ac anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau yn parhau i gael effaith fawr ar bobl f/Fyddar a defnyddwyr laith Arwyddion Prydain.

Mae themâu cyffredin yn cynnwys:

- Methu â darparu cymorth cyfathrebu a gwasanaeth dehongli laith Arwyddion Prydain.
- Dibyniaeth ar systemau apwyntiadau dros y ffôn a sianeli cyfathrebu anhygyrch.
- Disgwyliadau y bydd cleifion yn trefnu eu dehonglwyr eu hunain.
- Diffyg dealltwriaeth o anghenion y gymuned fyddar ar draws lleoliadau gofal iechyd.
- Gorfod aros yn hir am asesiadau, diagnosteg a thriniaethau awdioleg.
- Anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau adsefydlu clyw, adolygiadau cymhorthion clyw a chymorth dilynol.
- Methu â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cleifion byddar.

Rydym wedi cael 57 achos yn ymwneud â byddardod a mynediad at wasanaethau laith Arwyddion Prydain ac 17 achos arall yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau awdioleg.

Yr effaith ar fywydau pobl

Nid rhwystrau gweinyddol yn unig mo'r materion hyn. Dengys gwaith achos sut fath o effaith a gaiff oedi a methiannau cyfathrebu ar iechyd, llesiant, annibyniaeth a diogelwch pobl. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Pobl yn dweud bod eu clyw wedi gwaethygu tra maent yn aros am asesiad neu driniaeth.
- Oedi cyn asesu clyw plant, gan effeithio ar eu haddysg a'u cynhwysiant cymdeithasol.
- Pobl fyddar yn methu â chyfranogi'n llawn mewn penderfyniadau'n ymwneud â'u gofal oherwydd methiannau dehonglwyr.
- Unigolion yn dweud eu bod yn dioddef ynysigrwydd a gorbryder cynyddol a'u bod yn colli eu hannibyniaeth pan gaiff llwybrau cyfathrebu hygyrch eu dileu neu pan fethir â'u darparu.

“Roeddwn yn teimlo'n anweledig oherwydd allai neb gyfathrebu â mi.”

“Dibynnais ar aelodau fy nheulu oherwydd nid oedd dehonglwr ar gael.”

Dosbarthiad rhanbarthol

Achosion awdioleg

Rhanbarth / Bwrdd Iechyd	Nifer
Aneurin Bevan / Gwent	6
Cwm Taf Morgannwg	5
Bae Abertawe / Castell-nedd Port Talbot	4
Powys	3
Hywel Dda / Gorllewin Cymru	3

(Mae rhai achosion yn cyfeirio at fwy nag un sefydliad; mae'r cyfansymiau'n fwy na nifer yr achosion.)

Mae pryderon ynghylch awdioleg yn ymwneud â'r canlynol yn bennaf:

- Mynediad at asesiadau a thriniaethau.
- Cymhorthion clyw – darpariaeth a chymorth.
- Llwybrau atgyfeirio y Glust, y Trwyn a'r Gwddf.
- Llwybrau ar gyfer cael gwared â chwyr clustiau.
- Oedi o ran diagnosteg ac apwyntiadau.

Achosion Byddardod / Iaith Arwyddion Prydain

Rhanbarth	Y nifer yn fras
Gwent	28
Gorllewin Cymru	11
Powys	8
Caerdydd a'r Fro	6
Cwm Taf Morgannwg	4
Bae Abertawe / Castell-nedd Port Talbot	4
Gogledd Cymru	6

Er bod nifer yr achosion yn amrywio'n fawr ledled Cymru, mae'r materion a grybwyllwyd yn rhyfeddol o gyson. Sonnir am bryderon yn ymwneud â darpariaeth dehonglwyr, cyfathrebu mewn ysbytai, mynediad at wasanaethau awdioleg ac addasiadau rhesymol ar draws amryfal ranbarthau, gan awgrymu heriau systemig yn hytrach na heriau lleol.

Manylion / Detail

Troi mewnwelediad yn effaith: trosolwg

Trwy gyfrwng ein gwaith ymgysylltu, eiriolaeth cwynion, ymholiadau a dylanwadu, mae Llais wedi pennu rhwystrau cyson a ddaw i ran pobl f/Fyddar ledled Cymru. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys cael gafael ar ddehonglwyr, systemau apwyntiadau anhygyrch, prinder gwybodaeth mewn iaith Arwyddion Prydain a fformatau hygyrch eraill, rhwystrau o ran cael gafael ar wasanaethau awdioleg a methu â gwneud addasiadau rhesymol. Daethpwyd ar draws y themâu hyn yn gyson yn ein

gweithgarwch ymgysylltu, ein gwaith achos eiriolaeth cwynion a'n gwaith polisi, gan awgrymu mai heriau systemig ydynt yn hytrach na digwyddiadau unigryw.

Trwy ddwyn ynghyd yr wybodaeth hon o bob cwr o'r sefydliad, bu modd i Llais ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau, llywio trafodaethau polisi cenedlaethol a sicrhau ymrwymadau sy'n anelu at wella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl f/Fyddar.

Yr hyd a ddywedwyd wrthym

Mae cyfathrebu yn dal i fod yn un o'r prif rwystrau sy'n effeithio ar y profiadau a gaiff pobl f/Fyddar o iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pobl yn sôn am anawsterau o ran cael gafael ar ddehonglwyr, gwneud apwyntiadau, cael gwybodaeth mewn fformatau hygyrch a chyfranogi'n llawn mewn penderfyniadau'n ymwneud â'u gofal.

Mae gwaith achos eiriolaeth cwynion yn dangos yr effaith a gaiff y rhwystrau hyn ar ganlyniadau iechyd, annibyniaeth, urddas a llesiant.

Mae pryderon ynglŷn â'r materion hyn i'w gweld yn gyson ledled Cymru ac ar draws amryfal leoliadau gwasanaeth.

Yr hyn a wnaethom

- Defnyddio mewnwelediadau a ddeilliodd o weithgareddau ymgysylltu ac eiriolaeth cwynion i ddylanwadu ar drafodaethau ynghylch gwella gwasanaethau a pholisïau cenedlaethol.
- Cyflwyno sylwadau ffurfiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â phrofiadau pobl fyddar o wasanaethau sgrinio.
- Defnyddio ein pwerau statudol i geisio sicrwydd gan awdurdodau lleol ynglŷn â dyfodol gwasanaethau gofal cartref arbenigol sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
- Cyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriadau ac ymchwiliadau, yn cynnwys y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), y Cynllun Hawliau Pobl Anabl a dyfodol Practisau Cyffredinol yng Nghymru.
- Gwella ein hygyrchedd ein hunain trwy hyfforddi ein staff, trwy ddatblygu ein gwefan a thrwy weithio mewn partneriaeth â'r gymuned Fyddar.

Yr hyn sydd wedi newid

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i ehangu adnoddau iaith Arwyddion Prydain ledled rhaglenni sgrinio, ynghyd â gwella'r modd y pennir anghenion cyfathrebu, archwilio Gwasanaethau Cyfnewid Fideo ac ymwreiddio hygyrchedd yn ei strategaeth tegwch sgrinio.
- Hefyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i fonitro profiadau pobl Fyddar yn well ac mae wedi gwahodd deialog barhaus gyda Llais er mwyn ategu ychwaneg o welliannau.
- Mae awdurdodau lleol wedi rhoi sicrwydd ynglŷn â pharhad cymorth gofal cartref arbenigol sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain ac maent wedi ymrwymo i gynnwys yr unigolion dan sylw mewn penderfyniadau'n ymwneud â gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae profiadau pobl f/Fyddar wedi llywio trafodaethau polisi cenedlaethol ynglŷn â chyfathrebu hygyrch, prosesau cwyno a gweithredu'r Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru).
- Mae Llais wedi gwella'i allu ei hun trwy ddarparu hyfforddiant iaith Arwyddion Prydain, trwy weithio mewn partneriaeth a thrwy ddatblygu gwasanaethau mwy hygyrch.

Er bod nifer o welliannau'n dal i fod ar y gweill, dengys yr enghreifftiau hyn ddilyniant clir rhwng y profiadau a rannodd pobl gyda ni, y camau a gymerwyd gan Llais, a'r ymrwymïadau a'r newidiadau a gyflawnwyd.

Gwella mynediad at wasanaethau Llais

Rydym yn gweithio gyda Byddardod Ymlaen Cymru a Deaf Health Wales i archwilio sut y gallwn wella ein gwasanaethau er mwyn bod yn fwy hygyrch, yn enwedig i ddefnyddwyr iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ymgynghori ynglŷn ag ystod o opsiynau, yn cynnwys Gwasanaethau Cyfnewid Fideo a chymorth gwasanaethau cwsmeriaid 'byddar i fyddar' gyda'r gymuned Fyddar er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau a roddwn ar waith yn gweithio i'r bobl a fydd yn eu defnyddio.

Hefyd, maent yn ein helpu i feddwl am gynllun ein gwasanaethau a'r modd y gallwn gyfleu'n well pwy ydym, yr hyn a wnawn a'r hyn y gallwn ei gynnig, er mwyn i bobl fyddar wybod ein bod yma iddynt hwy hefyd.

Rydym yn aelod o grŵp llywio Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth a Chyfathrebu. Bwriad y safonau hyn yw sicrhau bod gwybodaeth a dulliau cyfathrebu'r GIG a chyrrff iechyd yn hygyrch ac yn ddealladwy i bobl ag arddulliau cyfathrebu

amrywiol, yn cynnwys Saesneg fel iaith Ychwanegol, y Gymraeg, Hawdd ei Ddeall ac iaith Arwyddion Prydain.

Gweithio mewn Partneriaeth o fewn Rhanbarthau: Panel Cyfranogiad Pobl Iaith Arwyddion Prydain Gwent

Yn rhanbarth Gwent, mae Llais wedi bod yn hollbwysig o ran sefydlu'r Panel Cyfranogiad Pobl Iaith Arwyddion Prydain a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r panel hwn yn dwyn ynghyd arweinwyr y Bwrdd Iechyd, Byddardod Ymlaen Cymru, pobl â phrofiad bywyd a sefydliadau partner i ategu gwelliannau mewn gwasanaethau trwy gydgynghyrchu er budd pobl f/Fyddar, pobl sydd wedi colli eu clyw, pobl drwm eu clyw a phobl ddall a byddar.

Gan weithio'n agos gyda chleientiaid eirioli a threfnwyr y panel, mae Llais yn helpu i sicrhau y gall pobl â phrofiad uniongyrchol o wasanaethau iechyd a gofal gyfrannu at drafodaethau a llywio gwelliannau. Mae unigolion sydd wedi defnyddio ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion wedi mynychu'r panel i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau, gan helpu penderfynwyr i ddeall yr effaith a gaiff rhwystrau cyfathrebu a phroblemau hygrychedd. Mae'r panel yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n ffordd bwysig o ymgysylltu'n barhaus â'r gymuned Fyddar.

Mae adborth a rannwyd trwy gyfrwng y panel wedi tynnu sylw at ystod o faterion sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd, yn cynnwys rhwystrau cyfathrebu, mynediad at ddehonglwyr, diffyg gwybodaeth hygrych, cydsyniad ar sail gwybodaeth, ac effaith yr heriau hyn ar gydraddoldeb, urddas a diogelwch cleifion. Mae'r panel wedi helpu i bennu problemau'n ymwneud â gwasanaethau o ddydd i ddydd ynghyd â heriau systemig ehangach, gan ategu gwelliannau mewn meysydd megis gwybodaeth hygrych am apwyntiadau, darpariaeth dehonglwyr, prosesau cwyno ac ymgysylltu â chleifion.

Hefyd, mae'r bartneriaeth wedi gwella llwybrau atgyfeirio rhwng y gymuned f/Fyddar a gwasanaeth eiriolaeth cwynion Llais, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a chan helpu pobl i grybwyll pryderon pan na chaiff anghenion cyfathrebu eu diwallu. Mae'r dull cydweithredol hwn yn parhau i greu cyfleoedd i gyflwyno ychwaneg o welliannau, yn cynnwys gwaith ymgysylltu diweddar â rhwydweithiau cymorth cymunedol ar gyfer pobl Fyddar a thrafodaethau gyda gwasanaethau gofal iechyd ynglŷn â gwella hygrychedd apwyntiadau.

Dysgu a Datblygu

Rydym wedi cynnig cwrs Iaith Arwyddion Prydain rhagarweiniol i'r holl staff sy'n delio â'r cyhoedd ledled Llais. Hefyd, rydym yn cynnig cymhwyster Lefel 1 ffurfiol mewn Iaith Arwyddion Prydain i ddetholiad o staff ar draws timau rhanbarthol Llais er mwyn gwella ein gallu i gynnig gwasanaeth iaith arwyddion sylfaenol i ddefnyddwyr iaith Arwyddion Prydain, gan wella cynhwysiant.

Fel rhan o'n rhaglen dysgu a datblygu ehangach, rydym yn cynnal trafodaethau gyda'n partneriaid i weld pa elfennau eraill y gellir eu cynnig er mwyn gwella ein hymwybyddiaeth a'n dealltwriaeth o ddiwylliant pobl f/Fyddar.

Datblygu Gwefan

Mae ein gwefan newydd wrthi'n cael ei datblygu gyda Civic sydd â mynediad at dîm hygyrchedd.

Rydym yn gweithio gyda'r cwmni ar ffyrdd o ymwreiddio iaith Arwyddion Prydain yn ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys meddwl am hyd y testun a arddangosir ar ein tudalennau er mwyn ei gwneud hi'n haws datblygu troshaenau iaith Arwyddion Prydain, defnyddio offer fel ReachDeck ac ystyried teclynnau ar gyfer iaith arwyddion mewn gwahanol rannau o'r safle.

Llywio a dylanwadu ar bolisiau cenedlaethol yn ymwneud â phobl f/Fyddar

Mae mewnwelediadau a gasglwyd trwy ymgysylltu â phobl f/Fyddar wedi cyfrannu at ddatblygu'r Egwyddorion Pobl, yn enwedig rhai'n ymwneud â chyfathrebu hygyrch, gwasanaethau cynhwysol a theg, cynnwys pobl mewn penderfyniadau'n ymwneud â'u gofal, a sicrhau bod anghenion unigol pobl yn cael eu deall a'u parchu.

Caiff y blaenoriaethau hyn eu hadlewyrchu yn y weledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a nodir yn [Y Gofal Iechyd a Chymdeithasol a Ddymunwn](#).

Rydym wedi anelu at ddylanwadu ar bolisiau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl f/Fyddar trwy gyflwyno sylwadau a thrwy ymateb i ymgynghoriadau:

Yr effaith a gafodd y sylwadau a anfonodd Llais at lechyd Cyhoeddus Cymru ar fynediad pobl fyddar at wasanaethau sgrinio

Yn dilyn pryderon a grybwyllwyd gan Donna Coleman, Arweinydd Strategol Iechyd Menywod yn Llais a Chyfarwyddwr Rhanbarthol Gorllewin Cymru, ynglŷn â phrofiadau pobl f/Fyddar o wasanaethau sgrinio'r fron a sgrinio serfigol, cyflwynodd Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, ymateb manwl yn nodi'r trefniadau presennol ynghyd â nifer o ymrwymadau gogyfer gwella hygyrchedd ledled rhaglenni sgrinio.

Materion allweddol a grybwyllwyd gan Llais

Tynnodd y sylwadau sylw at bryderon aelodau'r gymuned Fyddar ynglŷn â'r canlynol:

- Mynediad at gymorth cyfathrebu priodol yn ystod apwyntiadau sgrinio.
- Argaeledd gwybodaeth mewn Iaith Arwyddion Prydain.
- Anawsterau o ran cael gafael ar ddehonglwyr.
- Hyder o ran rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- Amharodrwydd rhai unigolion i grybwyll pryderon neu wneud cwynion ynglŷn â'u profiadau.

Y canlyniadau a'r ymrwymadau y llwyddwyd i'w cyflawni

O ganlyniad i'r pryderon a grybwyllwyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cadarnhau'r canlynol:

Mae rhaglen waith ar y gweill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am sgrinio ar gael mewn fformatau amgen a hygyrch ar draws pob rhaglen sgrinio.

Mae adnoddau Iaith Arwyddion Prydain wedi'u datblygu eisoes ar gyfer gwasanaethau sgrinio'r fron, sgrinio'r coluddion, sgrinio anewrysm aortig yn yr abdomen a sgrinio llygaid pobl sydd â diabetes, a'r bwriad yw ehangu mwy fyth ar y ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain, yn cynnwys o fewn y gwasanaeth sgrinio serfigol.

Mae rhaglenni sgrinio'n gwella'r modd y pennir ac y cefnogir anghenion cyfathrebu, yn cynnwys ceisiadau awtomatig am ddehonglwyr ar gyfer apwyntiadau sgrinio'r fron yn y dyfodol pan fo'r angen arbennig hwnnw wedi'i bennu'n flaenorol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn archwilio'r syniad o gyflwyno Gwasanaeth Cyfnewid Fideo (VRS), megis SignLive, ar gyfer rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint, a cheir potensial i roi hyn ar waith yn ehangach ar draws gwasanaethau sgrinio.

Caiff anghenion pobl Fyddar eu hadlewyrchu'n benodol yn fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth Tegwch Sgrinio a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn cynnwys ymrwymadau'n ymwneud â gwybodaeth hygyrch, cymorth cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ailddatgan ei ymrwymiad i weithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth a Chyfathrebu (ACIS) a pharatoi ar gyfer gofynion pellach a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth Iaith Arwyddion Prydain sydd ar fin cael ei chyflwyno.

Gwella trefniadau monitro ac adrodd

Hefyd, pennodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fesurau ar gyfer deall profiadau pobl Fyddar yn well, yn cynnwys:

Ymgysylltu'n barhaus â sefydliadau a chymunedau Byddar wrth ddatblygu adnoddau Iaith Arwyddion Prydain.

Gweithio mewn partneriaeth trwy gyfrwng cyfarfodydd cymunedol, rhwydweithiau eirioli a fforymau ymgysylltu â sgrinio.

O fis Awst 2026, cyflwyno Arolwg o Brofiad Pobl ar draws gwasanaethau sgrinio mewn clinigau, yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â'r iaith gyfathrebu a ffeirir, mynediad at gymorth cyfathrebu a chydymffurfio â Safonau Cyfathrebu Hygyrch.

Yr effaith gyffredinol

Ysgogodd y sylwadau ymateb cadarnhaol ac adeiladol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a rhoddwyd sicrwydd bod profiadau pobl Fyddar yn cael eu hystyried ar draws pob rhaglen sgrinio, nid rhaglenni sgrinio'r fron a sgrinio serfigol yn unig. Hefyd, arweiniodd y sylwadau at ymrwymo i ehangu'r ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain, gwella cymorth cyfathrebu, gwella'r modd y caiff profiad ei fonitro, ac ymwreiddio ystyriaethau hygyrchedd wrth ddatblygu rhaglenni strategol ac wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Ymhellach, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwahodd deialog bellach gyda Llais i ategu gwelliannau parhaus.

Effaith sylwadau Llais ar wasanaethau gofal cartref laith Arwyddion Prydain

Yn dilyn pryderon a grybwyllwyd gan aelodau'r gymuned f/Fyddar a Chyngor Cymru i Bobl Fyddar, daeth Llais yn ymwybodol bod Achieve Together – sef darparwr gofal cartref arbenigol a gyflwynir trwy ddefnyddio laith Arwyddion Prydain – wedi rhoi rhybudd ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau. Arweiniodd hyn at ansicrwydd mawr i bobl a oedd yn dibynnu ar y gwasanaeth hwn i fyw'n annibynnol a chael gafael ar gymorth trwy gyfrwng eu dewis iaith.

Trwy ymgysylltu â'r unigolion dan sylw, clywsom yn uniongyrchol pa mor bwysig yw cymorth arbenigol sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain o ran galluogi pobl i reoli eu bywydau beunyddiol, mynychu apwyntiadau gofal iechyd, cael gafael ar gyfleoedd cyflogaeth, cynnal cysylltiadau cymdeithasol, a pharhau i fod yn annibynnol. Dywedodd nifer o bobl eu bod yn teimlo'n bryderus iawn ynglŷn â dyfodol eu gofal a'u cymorth.

Mewn ymateb i hyn, gweithiodd Llais yn agos â'r gymuned f/Fyddar a sefydliadau partner i sicrhau bod y profiadau hyn yn cael eu clywed. Gan ddefnyddio ein pwerau cynrychioli statudol, fe wnaethom ysgrifennu at awdurdodau lleol ledled Cymru yn gofyn am sicrwydd ynglŷn â'r canlynol: parhad y gofal, trefniadau comisiynu'r dyfodol, cynnwys y bobl berthnasol wrth wneud penderfyniadau, a diogelu gwasanaethau hygyrch i bobl f/Fyddar.

O ganlyniad, rhoddodd awdurdodau lleol sicrwydd y byddai'r trefniadau cymorth presennol yn parhau tra caiff atebion hirdymor amgen eu datblygu. Hefyd, dangosodd yr ymatebion ymrwymiad i ymgysylltu â phobl drwy gydol y broses, ynghyd ag ymrwymiad i gynnal mynediad at arbenigedd pa bryd bynnag y bo modd a sicrhau y bydd unigolion yn dal i gael dewis a rheolaeth dros drefniadau cymorth yn y dyfodol.

Ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Cynllun Drafft Hawliau Pobl Anabl

Yn ein [hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Drafft Hawliau Pobl Anabl](#), nododd Llais pa mor bwysig yw gwella mynediad a chynhwysiant i bobl F/fyddar a defnyddwyr laith Arwyddion Prydain. Fe wnaethom ofyn am safonau cyson ar gyfer laith Arwyddion Prydain ledled gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â threfniadau rheolaidd ar gyfer monitro'r ddarpariaeth laith Arwyddion Prydain, hygyrchedd digidol gwell, a threfniadau cydgynhyrchu ystyrlon

gyda chymunedau B/byddar. Hefyd, pwysleisiwyd y dylid cydnabod bod mynediad at laith Arwyddion Prydain yn hawl yn hytrach nag yn ddarpariaeth ddisgresiynol.

Tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i Ddyfodol Practisau Cyffredinol yng Nghymru

Yn ein [tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Senedd i ddyfodol practisau cyffredinol yng Nghymru](#), tynnodd Llais sylw at rwystrau a all wynebu pobl sydd wedi colli eu clyw a phobl ag anghenion cyfathrebu eraill o ran cael gafael ar wasanaethau meddygon teulu. Yn yr adborth, soniwyd am anawsterau o ran defnyddio systemau apwyntiadau dros y ffôn; pryderon ynglŷn â gorfod dibynnu ar eraill i gyfathrebu ar eu rhan; a'r ffaith bod angen i'r staff allu deall ystod o anghenion cyfathrebu yn well, ac ymateb yn well iddynt. Fe wnaethom ofyn am well defnydd o addasiadau rhesymol a dulliau cyfathrebu amgen er mwyn sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal sylfaenol.

Dengys yr enghreifftiau hyn y modd y mae Llais wedi bod yn eirioli dros wella hygyrchedd a chyfathrebu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau ar yr un pryd y caiff profiadau pobl F/fyddar a phobl â cholled synhwyrdd eu hadlewyrchu mewn trafodaethau polisi cenedlaethol a gwelliannau mewn gwasanaethau.

Ymateb Llais i'r ymgynghoriad ynglŷn â diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru

Yn ein [hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol](#), tynnodd Llais sylw at anghenion pobl a chanddynt anghenion cyfathrebu sylweddol, yn cynnwys defnyddwyr laith Arwyddion Prydain. Nid oeddem o'r farn bod darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen ar gais yn unig yn gyfystyr â darparu cynnig rhagweithiol, ac roeddem o'r farn y gallai hynny arwain at rwystrau a phryder ychwanegol wrth gael gafael ar wasanaethau deintyddol. Fe wnaethom ofyn am wasanaeth cynhwysol, cyfathrebu hygyrch a chymorth penodol er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw ddiwygiadau'n arwain yn anfwriadol at roi pobl ag anghenion cyfathrebu dan anfantais.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r broses Gweithio i Wella, pwysleisiodd Llais pa mor bwysig yw cyfathrebu hygyrch, deall dewisiadau cyfathrebu unigolion, a sicrhau bod cymorth priodol ar gael er mwyn galluogi pobl i gyfranogi'n llawn yn y broses gwyno.

Y Bil laith Arwyddion Prydain (Cymru): Ymateb Llais i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd

Fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth gogyfer gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), gan ddefnyddio profiadau a ddeilliodd o'n gwaith ymgysylltu, cynrychioli ac eiriolaeth cwynion.

Yn ein sylwadau, tynnwyd sylw at ymrwymiad Llais i ddarparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol, yn cynnwys defnyddio dehonglwyr iaith Arwyddion Prydain, gwasanaethau cyfnewid fideo, arferion cyfathrebu hygyrch a chynlluniau i ehangu hyfforddiant iaith Arwyddion Prydain i staff sy'n delio â'r cyhoedd.

Yn sgil tystiolaeth a gasglwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, dangoswyd bod hyd yn oed sgiliau sylfaenol mewn iaith Arwyddion Prydain ac ymwybyddiaeth sylfaenol o fod yn Fyddar yn cael effaith gadarnhaol ar barodrwydd a gallu pobl i ymgysylltu â gwasanaethau.

Yn yr ymateb, nodwyd rhwystrau mawr sy'n wynebu defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys anawsterau o ran cael gafael ar ddehonglwyr cymwysedig, heriau wrth gyfathrebu â gwasanaethau meddygon teulu, systemau apwyntiadau anhygyrch, gorddibyniaeth ar dechnoleg dehongli o bell, ac ymwybyddiaeth anghyson o fod yn Fyddar ymhlith darparwyr.

Nodwyd ein bod wedi cefnogi 20 o gwynion lle'r roedd iaith Arwyddion Prydain neu rwystrau cyfathrebu'n ymwneud â bod yn Fyddar wedi bod wrth galon a chraidd y broblem, gan gwmpasu gofal sylfaenol, ysbytai, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cleifion allanol.

Hefyd, nodwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai'r newidiadau arfaethedig i broses gwyno'r GIG dan y fframwaith Gwranddo ar Bobl gynyddu'r galw am ddehonglwyr cymwysedig a chreu risgiau o ran bodloni amserlenni statudol oni bai y câi capasiti dehonglwyr a threfniadau hygyrchedd eu gwella.

Ein neges allweddol i'r Pwyllgor oedd bod mynediad amserol at wasanaethau dehongli priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod modd i ddefnyddwyr iaith Arwyddion Prydain gyfranogi'n llawn ac yn deg mewn gofal iechyd, gofal cymdeithasol a phrosesau cwyno. Argymhellwn y dylid mynd i'r afael â rhagor o

waith i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer cael mynediad at ddarpariaethau dehongli a monitro darpariaethau dehongli ledled Cymru, ochr yn ochr â chanolbwyntio mwy ar gyfathrebu hygyrch ac ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar.

Paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Gan gydnabod y cyfleoedd sylweddol sy'n deillio o weithredu'r Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), mae Llais wedi dechrau archwilio sut y gallwn wella mwy fyth ar y cymorth a roddir i bobl f/Fyddar a defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Mae ein Pennaeth Tegwch, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant a'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Chyflawni wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod ffyrdd o feithrin cymhwysedd mewn Iaith Arwyddion Prydain ac ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar ledled Llais a'r sector cyhoeddus ehangach.

Yn y trafodaethau, archwiliwyd hefyd gyfleoedd i wella cymorth eirioli ar gyfer pobl f/Fyddar, yn cynnwys ystyried rolau arbenigol yn ymwneud ag eirioli neu hyrwyddo a allai helpu i sicrhau bod modd i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gael gafael ar wasanaethau, lleisio pryderon a chael eu clywed.

Er mai newydd ddechrau y mae'r trafodaethau hyn, dangosant ein bod wedi ymrwymo i ymateb i faterion cyfredol a'n bod hefyd wedi ymrwymo i baratoi ar gyfer anghenion a disgwyliadau'r dyfodol yn sgil y Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru). Mae'r gwaith sydd eisoes ar y gweill ledled Llais – yn cynnwys rhoi hyfforddiant i'r staff, gwella hygyrchedd gwasanaethau, ymhél â pholisïau a gweithgareddau cynrychioli – yn sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa gref ar gyfer cynorthwyo i weithredu'r Ddeddf a dylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl f/Fyddar.

Eiriolaeth cwynion

Gofynnodd Gemma inni ei chynorthwyo ar ôl iddi fethu â chael apwyntiadau gyda'i meddyg teulu dro ar ôl tro. Dyma sut y llwyddodd ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion i'w helpu:

<https://youtu.be/K-6qwPMQEag?si=f11R1tl3oDpO39sA>

Cyfres podlediad: “Llais Mewn Sgwrs â...”

Bydd un o benodau ein cyfres podlediad [Mewn Sgwrs â...](#) yn canolbwyntio ar fynediad at wasanaethau iechyd a gofal i bobl fyddar.

Bydd y bennod yn cynnwys Dr Rob Wilks (Prifysgol Gorllewin Lloegr), Dr Sara Rhys-Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) a Charles Hampton II (Byddardod Ymlaen Cymru), a fydd yn trafod prosiect Deaf Health Wales a phrofiadau pobl f/Fyddar o ran cael gafael ar wasanaethau. Mae Dr Wilks a Dr Rhys-Jones yn fyddar ac maent yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain fel eu dewis iaith, a bydd gwasanaeth dehongli iaith Arwyddion Prydain yn cael ei ddarparu drwy gydol y recordiad.

Cynhyrchir holl benodau'r podlediad gyda chyfieithiad iaith Arwyddion Prydain, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau hygyrchedd a gwneud yn siŵr y gall pobl f/Fyddar ymhél â'n cynnwys. Bydd y bennod hon yn ategu mwy fyth ar ein gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldebau iechyd a ddaw i ran pobl fyddar a bydd yn hyrwyddo lleisiau defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain o ran llywio gwasanaethau.

Canllawiau gwranddo arnom ni

Yn ystod mis Mai 2026, fe wnaethom ddatblygu cyfres o ganllawiau i gynorthwyo sefydliadau a grwpiau i ymgysylltu'n effeithiol â phobl o wahanol gymunedau. Cafodd y canllawiau hyn eu cydgynhyrchu gyda sefydliadau cynrychiadol.

Hyd yn hyn, rydym wedi llunio canllawiau ar gyfer cynorthwyo i ymgysylltu â phobl Fyddar a defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain, pobl LHDTC+, gofalwyr di-dâl, menywod â salwch cronig, pobl ag anableddau dysgu a chymunedau ethnig lleiafrifol.

Pobl f/Fyddar a Defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain – Canllawiau

Mae'r canllawiau hyn yn ategu 'Egwyddorion Pobl' Llais trwy sicrhau y rhoddir lle cwbl ganolog i anghenion mynediad, anghenion cyfathrebu ac anghenion diwylliannol pobl Fyddar a Defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Egwyddorion Craidd

- Parchu diwylliant pobl Fyddar a'r amrywiaeth a geir o fewn cymunedau b/Byddar.
- Gofyn – peidio â rhagdybio (mae dewisiadau cyfathrebu'n amrywio'n fawr).
- Cofio bod Iaith Arwyddion Prydain yn iaith yn ei rhinwedd ei hun, yn hytrach na'i bod yn offeryn cymorth.
- Cydnabod nad Saesneg ysgrifenedig fydd iaith gyntaf nac iaith gryfaf pobl o angenrheidrwydd.
- Caiff cyfathrebu ei rannu rhwng y ddwy ochr – mae'r ddwy ochr yn addasu er mwyn gwneud iddo weithio.

Cyfathrebu – Camau Gweithredu Allweddol ("Ble")

- Tynnu sylw mewn ffyrdd y gall pobl eu gweld (e.e. codi llaw, tap ysgafn)
- Defnyddio iaith 'bob dydd', glir
- Cynnig dewisiadau cyfathrebu:
- Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain
- Ysgrifennu
- Cyfnewid testun
- Apiau
- Cadarnhau trefniadau'r dehonglwr yn glir
- Darparu trawsgrifiad neu nodiadau ysgrifenedig dilynol mewn Saesneg syml
- Cynnig adborth trwy gyfrwng fideo gyda throshaenau iaith Arwyddion Prydain

Pobl nad ydynt yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain

- Gofyn pa ddull sy'n gweithio orau (e.e. ysgrifennu, gwefusddarllen, apiau, ystumiau)
- Lleihau sŵn cefndir
- Peidio â dibynnu ar wefusddarllen yn unig
- Defnyddio iaith syml
- Darparu trawsgrifiadau ar ôl cyfarfodydd ar-lein

Yr amgylchedd

- Goleuadau da
- Gallu gweld wynebau'n glir

- Dim llawer o sŵn cefndir
- Trefnu'r seddi mewn modd a fydd yn sicrhau y gall pawb weld ei gilydd
- Lle tawel, preifat

Camau Gweithredu Arfer Da

Cynnwys: Cynnwys pobl f/Fyddar mewn penderfyniadau ac wrth gydlunio gwasanaethau

Eirioli: Sicrhau bod dehonglwyr yn cael eu trefnu, codi pryderon pe na bai hawliau cyfathrebu pobl Fyddar yn cael eu diwallu, herio'r penderfyniad pe bai cymorth yn cael ei wrthod neu pe bai yna oedi cyn ei ddarparu

Gweithio: Gweithio gyda dehonglwyr laith Arwyddion Prydain/Saesneg cofrestredig a chymwysedig, gan baru sgiliau a chynnwys

Meithrin: Meithrin ymwybyddiaeth o ddiwylliant pobl Fyddar a chael gwared â rhwystrau

Cryfhau: Cryfhau cydberthnasau trwy beidio â rhuthro, gan gadarnhau bod pawb yn deall

Ni ddylid aros i bobl ofyn. Dylid cynnig opsiynau hygyrch ymlaen llaw a sicrhau eu bod yn hawdd eu gweld.

Dulliau Cyfathrebu Hygyrch

- Apiau ar gyfer pobl f/Fyddar
- Cyfnewid testun
- E-byst
- Wyneb yn wyneb
- Iaith glir

Trwy gyfrwng ein gweithgareddau ymgysylltu, eiriolaeth cwynion a dylanwadu, bu modd i Llais bennu rhwystrau mynych a ddaw i ran pobl f/Fyddar a defnyddio'r wybodaeth honno i ysgogi gwelliannau.

Er bod enghreifftiau o arferion da i'w cael, mae heriau parhaus yn dal i greu rhwystrau i nifer o bobl – sef heriau'n ymwneud â darpariaeth dehonglwyr, gwybodaeth hygyrch, gwasanaethau awdioleg ac addasiadau rhesymol.

Mae cyflwyno Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026 yn cynnig cyfle hollbwysig i wella hygyrchedd, cynhwysiant a chyfranogiad pobl Fyddar ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae Llais eisoes mewn sefyllfa dda i gyfrannu at yr agenda hon trwy gyfrwng ein gwaith ymgysylltu, eirioli, ymchwil a pholisi. Mewn trafodaethau a gynhaliwyd gyda



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, archwiliwyd cyfleoedd i wella cymhwysedd a dealltwriaeth y sefydliad o gynhwysiant, anghenion cyfathrebu a diwylliant pobl f/Fyddar ledled ein gweithlu.

Hefyd, rydym wedi dechrau cynnal trafodaethau ynglŷn â'r posibilrwydd o gael cymorth penodol i bobl f/Fyddar mewn perthynas ag eiriolaeth cwynion, gan adeiladu ar y model llwyddiannus a sefydlwyd trwy gyfrwng ein heiriolwr arbenigol ar gyfer cwynion canser. Er mai newydd ddechrau y mae'r trafodaethau hyn, dangosant y cyfleoedd sy'n deillio o weithredu'r Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain a'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd cymorth arbenigol, hygyrch.

Mae'r mewnwelediad a gasglwyd trwy gyfrwng y papur hwn yn cynnig sylfaen gref i Llais ar gyfer chwarae rôl strategol o ran cynorthwyo i weithredu'r Ddeddf a sicrhau y bydd profiadau pobl f/Fyddar yn parhau i ddylanwadu ar welliannau ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.